



Carchar Ei Mawrhydi Brynbuga a Prescoed

Adroddiad Blynyddol

2011 - 2012

Adran 1

RÔL STATUDOL Y BWRDD MONITRO ANNIBYNNOL

Mae Deddf Carchardai 1952 a Deddf Mewnfudo a Lloches 1999 yn ei gwneud hi'n ofynnol i bob carchar a chanolfan remánd gael eu monitro gan Fwrdd annibynnol, a benodir gan yr Ysgrifennydd Cartref / Gweinidog Cyfiawnder, o blith aelodau o'r gymuned lle mae'r carchar neu'r ganolfan wedi'u lleoli.

Cyfrifoldebau penodol y Bwrdd yw:-

1. Bodloni ei hun bod y rhai a ddelir yn y ddalfa o fewn ei garchar yn cael eu trin yn drugarog ac yn gyfiawn, a bod amrywiaeth ddigonol o raglenni sy'n eu paratoi ar gyfer cael eu rhyddhau.
2. Hysbysu'r Ysgrifennydd Gwladol, neu unrhyw swyddog y mae wedi dirprwyo awdurdod iddo fel y gwêl yn dda, yn brydlon am unrhyw bryderon sydd ganddo.
3. Adrodd yn flynyddol i'r Ysgrifennydd Gwladol ar ba mor dda y mae'r carchar wedi cyrraedd y safonau a'r gofynion a osodwyd arno, a pha effaith y mae'r rhain yn ei gael ar y rheini yn y ddalfa.

Er mwyn galluogi'r Bwrdd i gyflawni'r dyletswyddau hyn yn effeithiol mae gan ei aelodau hawl i gael at unrhyw garchararor a phob rhan o'r carchar a hefyd gofnodion y carchar.

Adran 2

CYNNWYS

Disgrifiad o'r Carchardai	tudalen 3
Crynodeb Gweithredol	tudalen 4
Cydraddoldeb a Chynhwysiant	tudalen 4
Addysgu, Dysgu a Sgiliau	tudalen 4
Gofal Iechyd ac Iechyd Meddwl	tudalen 5
Gweithgaredd Buddiol	tudalen 5
Ailsefydlu	tudalen 6
Carcharu Diogelach	tudalen 6
Ymsefydlu / Derbyn	tudalen 7
Rhaglenni	tudalen 7
Amser allan o'r Gell	tudalen 7
Enghreifftiau o Ragoriaeth	tudalen 8
Meysydd o Bryder	tudalen 8
Ystadegau'r Bwrdd	tudalen 9

Adran 3 Disgrifiad o'r Carchar:

- 3 Mae Carchar Ei Mawrhydi Brynbuga a Prescoed wedi ei leoli ar dri safle. Mae Carchar Categori C yn nhref Brynbuga, carchar Categori D yn ardal Prescoed a Fferm Cilwrgi ychydig filltiroedd o Prescoed. Mae carcharorion yn cael eu cefnogi gan Swyddogion Personol, Gweithwyr Achos, Adran Seicoleg, Tîm Camddefnyddio Sylweddau, y Gaplaniaeth, Adran Gofal Iechyd a Thîm Ailsefydlu. Mae Gofal Iechyd yn cynnig cyfleuster gofal dydd, ond nid oes ganddo unrhyw welyau Gofal Iechyd ar gyfer anghenion triniaethau sy'n parhau.
- 3.1 Agorodd Carchar Ei Mawrhydi Brynbuga yn 1844. Trwy gydol ei fodolaeth, mae wedi darparu amrywiaeth o gyfundrefnau ac mae ar hyn o bryd yn garchar Categori C i ddynion, sy'n cadw carcharorion agored i niwed. Yn Ebrill 2011 ei lety ardystiedig tybiannol (CNA) oedd 153 gyda chynhwysedd gweithredol o 261, ac yn Nhachwedd 2011 cynyddodd y cynhwysedd i 266. Mae'r Carchar wedi'i orboblogi, ond nid yw cwynion i'r Bwrdd yn dangos bod hyn yn broblem i garcharorion, mae'r unig sylwadau yr ydym wedi eu derbyn yn ymwneud â phwy y mae carcharor yn rhannu yn hytrach na'r ffaith eu bod yn rhannu cell.
- Amcanion y carchar yw cadw carcharorion yn sicr ac yn ddiogel, er mwyn darparu sefydliad trefnus lle caiff carcharorion eu trin yn drugarog a gyda gwedduster a pharch. Bwriad y gyfundrefn strwythuredig yw paratoi'r carcharorion ar gyfer eu rhyddhau'n ddiogel, lleihau'r risg o aildroseddau a chyfrannu'n gadarnhaol at gymdeithas.
- 3.2 Mae Carchar Ei Mawrhydi Prescoed wedi'i leoli mewn cefn gwlad agored tua 3 milltir o dref BRYNBUGA. Mae'n garchar Ailsefydlu Categori D ac fe'i hatorwyd yn 1939. Yn Ebrill 2011, roedd y CNA yn 199 gyda chynhwysedd gweithredu o 210, ym Medi 2011 cododd hyn i 230.
- Mae'r gyfundrefn ym Mhrescoed wedi cael ei llunio ar gyfer adsefydlu ac addysgu, trwy gynllun dedfryd a chynllun adsefydlu strwythuredig, er mwyn hyrwyddo gostyngiad mewn risg o garcharorion yn aildroseddu pan ddychwelant i'w cymunedau. Mae cyfleoedd am addysg a lleoliadau gwaith gydag adnoddau'n cael eu dyrannu ar gyfer ailsefydlu carcharorion. Mae hyfforddiant mewn amrywiaeth o ddiwydiannau a gweithgareddau wedi'i hen sefydlu'i hun ym Mhrescoed ac mae'n dal ati'n gyson i gael lleoliadau gwaith addas.
- Gall y Bwrdd ddweud fod un ddihangfa a thri methiant rhyddhad ar drwydded amodol wedi digwydd yn ystod y cyfnod adrodd. Mae hyn yn adlewyrchu cyfradd llwyddiant o 99.98%, rhywbeth y mae'r carchar yn falch ohono wrth reswm. Mae pob carcharor sy'n ffoi'n dychwelyd i amodau caeedig, caiff absenoldebau anawdurdodedig eraill eu barnu gweithredir cosbau cadarn. (ee Colli enillion a'r ffreutur)
- 3.3 Mae Carchar Ei Mawrhyd Fferm Cilwrgi'n cynnwys 460 o erwau, gyda 160 o'r erwau hyn yn goetiroedd, a hefyd amrywiaeth o adeiladau allanol. Mae gan y fferm fuches odro ffyniannus a gyr o wartheg cig eidion Duon Cymreig. Mae gan Cilwrgi nifer o gyfleoedd hyfforddi i garcharorion, ee parlwr godro / rheoli gyr, hwsmonaeth anifeiliaid, technegau ffermio â, gweithgareddau melin lifio, sgiliau sylfaenol peiriannau fferm etc. Nifer cyfartalog y carcharorion sy'n gweithio ac yn hyfforddi ar y fferm yw 17. Yn anffodus, mae cynhyrchiant a gweithgaredd y fferm wedi cael eu heffeithio gan y cyfyngiadau a osodwyd ar y fferm yn sgil

Carchar Ei Mawrhydi Brynbuga a Prescoed

nifer o anifeiliaid yn profi'n gadarnhaol am TB. Mae hyn yn broblem barhaus a gwneir pob ymdrech i symud gwartheg ymlaen pan fo cyfnodau pan fo'r gyr yn glir a chyfyngiadau'n cael eu codi. Mae'r Fferm wedi'i dynodi'n Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig (SSSI).

Adran 4

CRYNODEB GWEITHREDOL

4.1 Mae Carchar Ei Mawrhydi Brynbuga a Prescoed, fel pob sefydliad arall, yn profi newid sylweddol er mwyn bod mor effeithlon ag sy'n bosibl gyda chyllidebau a leihawyd. Yn ystod y cyfnod anodd hwn, mae'r ffaith fod newid mor sylweddol (gyda chynnig am ddatblygiadau pellach) wedi cael ei gyflawni gyda'r isafswm o darfu ar boblogaethau'r carchardai wedi creu argraff ar y Bwrdd Monitro Annibynnol. Mae'r lleihad mewn staff wedi dylanwadu ar gyfundrefnau'r carchardai gan gynnal safonau gofal am garcharorion a'u paratoi ar gyfer cael eu rhyddhau. Mae'r Bwrdd yn llongyfarch y Tîm Uwch Reolwyr, yn enwedig y Llywodraethwr, am eu gweledigaeth a'u brwdfrydedd wrth gofleidio ail-ddiffiniad o amgylchedd carchar.

Mae'r adroddiad hwn yn nodi dau faes yn unig sy'n destun pryder sylweddol. Mae'n rhaid i garcharorion ym Mrynbuga fwyta'u prydau yn eu celloedd, sy'n anochel yn sgil oed a chynllun y carchar. Yn ail, nid yw'r cyfleusterau ymwelwyr, ym Mrynbuga, yn ddelfrydol, ond mae atebion yn cael eu hystyried ar gyfer yr adeg y bydd cyfyngiadau cyllidebol yn caniatáu newid. Rwyf yn falch o adrodd ein bod ni wedi adnabod chwe maes o arferion da.

Yn yr adegau anodd hyn, mae'r Bwrdd yn cydnabod yr angen i fod yn neilltuol o drylwyr wrth fonitro'r tri safle er mwyn sicrhau bod yr holl ofynion yn cael eu cynnal i safon uchel.

Adran 5

CYDRADDOLDEB A CHYNHWYSIANT

Mae Brynbuga a Prescoed wedi bod yn drylwyr wrth benodi Swyddog Gwedduster a sefydlu Pwyllgor Gwedduster i fonitro a rheoli'r holl faterion sy'n ymwneud â thrin carcharorion yn gyfartal. Mae'r Pwyllgor wedi'i ffurfio o Lywodraethwr ac uwch swyddog arall o staff, y Swyddog Gwedduster, aelod o'r Bwrdd Monitro Annibynnol, carcharorion sy'n cynrychioli grwpiau lleiafrifol yn y carchardai a chymorth gweinyddol. Mae'n cyfarfod unwaith bob chwarter, pryd y trafodir pob digwyddiad ers y cyfarfod diwethaf. Rhoddir hanes llawn o bob digwyddiad, sut y cawsant eu rheoli, pa gamau dilynol a gymerwyd, pa welliannau y gellid eu gwneud a chanlyniadau unrhyw gamau a gymerwyd. Mae'r Pwyllgor Gwedduster yn Grŵp sy'n gweithio'n iawn ac sy'n addas i'r diben. Mae'r Swyddog Gwedduster wedi cyflwyno, gweithredu a chynnal system gywir o gofnodi a monitro, a dylid a longyfarch ar hyn.

ADDYSG, DYSGU A SGILIAU

Mae'r ddau Garchar yn darparu amrywiaeth o addysg a sgiliau dysgu, sy'n cynnwys: - TGCh, Cymraeg, Llythrennedd a Rhifedd, Gosod Briciau, Gwaith Saer, Plastro, Celf, Gwaith Barbwr a Choginio. Yn Prescoed mae dewis Dysgu a Sgiliau llawn-amser.

I garcharorion Prescoed, mae nifer o gyfleoedd i weithio'r tu allan mewn sefydliadau elusenol, ee Siopau Elusen, Gwaith Gwirfoddol Awdurdod Lleol. Mae nifer cyfyngedig o gyfleoedd i ddilyn hyfforddiant mewn colegau lleol.

GOFAL IECHYD AC IECHYD MEDDWL

Mae gofal iechyd ar gael i garcharorion yng ngharchardai Brynbuga a Prescoed. Mae gan bob safle staff nyrsio a chânt eu gwasanaethu gan feddyg teulu sy'n ymweld a chynnal meddygfeydd yno'n rheolaidd. Mae gan Frynbuga ganolfan feddygol newydd gyda chyfleusterau da y gellir ei defnyddio gan weithwyr proffesiynol teithiol (meddyg teulu, deintydd, podiatrydd etc) ar gyfer sesiynau. Mae'r cyfleusterau meddygol ar y ddau safle'n cynnig preifatrwydd ac urddas. Nid oes unrhyw gyfleusterau i gleifion mewnol, ond darperir gwasanaetha hebrwng a gwylidwriaeth gwelyau wrth drin carcharorion mewn ysbytai lleol. Mae carcharorion sydd ag anghenion iechyd meddwl yn cael cymorth rheolaidd a phriodol. Mae gan y carchardai nyrs iechyd fforensig arweiniol a nyrs iechyd meddwl ran amser. Mae amrywiaeth o fentrau iechyd ar waith i hyrwyddo anghenion iechyd corfforol a meddyliol ac annogir ymarfer corff, o fewn gallu'r carcharor. Mae gwasanaeth rheoli afiechydon cronig, ee, asthma / diabetes / afiechyd cronig y galon etc. Hefyd mae sgrinio perfeddion, brechiadau rhag y fflw a gweithdrefnau diagnostig atal ar gael. Dywed carcharorion eu bod yn fodlon gyda safonau gofal iechyd.

GWEITHGAREDD BUDDIOL

Mae amrywiaeth o ddyraniadau llafur dan do megis glanhau, arlwy, paentio ac addurno, storfeydd a swyddogaethau trefniadol eraill o fewn y sefydliadau. Mae gweithgareddau awyr agored yn cynnwys garddio ac ailgylchu. (Mae gan garchar Brynbuga'r safon uchaf o gynnal a chadw gerddi y gellwch ei dychmygu. Mae'r tiroedd o gwmpas, yn enwedig y gwelyau blodau, yn wych). I garcharorion Prescoed, mae ganddynt yn ogystal waith Stad, amrywiaeth o waith Fferm a Hwsmonaeth Anifeiliaid gan gynnwys y Criwiau Godro. Caiff y gwaith o ddyrannu gweithgareddau, yn Prescoed, ei reoli gan y Tîm Ymsefydlu.

Yn Prescoed, mae tua 110 – 120 o garcharorion yn cymryd rhan mewn gweithgareddau awyr agored, yn rhai cam 1 a cham 2. (Mae tua 25% yn gweithio ar gam 2). Anaml y mae neb nad yw'n gweithio ar yw weithgaredd neu'i gilydd, yn Prescoed.

AILSEFYDLU

Caiff lleoliadau gwaith allanol (Prescoed) eu rheoli gan y Tîm Ailsefydlu sy'n cadw rhestr swyddi gwag a rhestr aros o garcharorion. Gall nifer o leoliadau Ailsefydlu arwain at waith cyflogedig ar ôl cael eu rhyddhau, yn enwedig i garcharorion ar leoliadau gwaith taledig Cam 2.

Mae'r Tîm Ailsefydlu / Gosod yn y Gymuned yn gweithio ar dri llwybr. Addysg, Hyfforddiant a Chyflogaeth, Tai a Dyledion. Mae'r Tîm yn cynorthwyo gyda chynghor ynghylch Dyledion a Thai, tra bod Sgiliau a Dysgu'n cynnig cymorth gyda materion addysg, hyfforddiant a gyrfa.

Ym Mrynbuga, mae'r uned Rheoli Troseddwr yn canolbwyntio ar leihau aildroseddu trwy ddefnyddio cynllunio dedfrydau i adnabod anghenion ac ymyriadau priodol. Ym Mhrescoed, mae'r mwyafrif o ymyriadau â chysylltiad agos â'r defnydd o ryddhau ar drwydded dros dro. Y llwybrau a ddefnyddir yw asgwrn cefn y system OASys a ddefnyddir trwy gydol arhosiad y carcharorion ym Mhrescoed. Mae'r llwybr yn helpu adnabod risg ac angen er mwyn canolbwyntio ymyriadau ar leihau aildroseddu. Mae'r Uned Rheoli Troseddwr yn mynychu Byrddau MAPPA.

Mae'r defnydd o ryddhau ar drwydded dros dro'n rhan annatod o'r gyfundrefn ym Mhrescoed. Caiff tua 1700 o drwyddedau rhyddhau dros dro eu caniatáu bob blwyddyn (mae hyn yn cynnwys cyfleoedd ail-integreiddio teuluoedd dros nos). Mae pob rhyddhad ar drwydded dros dro'n amodol ar asesiad risg. Mae Prescoed yn gweithredu ar fethiant o 0.01% mewn rhyddhau ar drwydded dro, sy'n ystadegyn cymeradwy ym marn y Bwrdd.

CARCHARU DIOGELACH

Yn ystod y cyfnod adrodd, nid oes unrhyw farwolaethau wedi bod yn y ddalfa, ac o ganlyniad, ni fu unrhyw gwest.

Cafodd cyfanswm o 6 ACCTS eu hagor a'u cau ym Mhrescoed. Nid oedd dim un ym Mrynbuga. Nid oes gan y Bwrdd unrhyw bryderon ynghylch Hunan Niwed, Trais nac Ymwybyddiaeth Hunanladdiad. Mae digwyddiadau bwlio yn brin, a phan fyddont yn digwydd, cânt eu trin yn ddifrifol a'u hymchwilio'n drwyadl. Caiff pob ACCTS eu hadrodd mewn cyfarfodydd misol a thrafodir cynlluniau gweithredu a sylwadau. Mae'r Bwrdd Monitro Annibynnol yn mynychu pob cyfarfod Carcharu Diogelach, ac yn ogystal, mae Gwrandawyr a'r Samariaid yn mynychu cyfarfodydd chwarterol.

GWAHANU

Nid yw Brynbuga na Prescoed yn cefnogi Uned Wahanu

ADRAN 6

YMSEFYDLU / DERBYN

Mae'r holl garcharorion sy'n cyrraedd ym Mrynbuga a Prescoed wedi cael eu trosglwyddo o garchar arall, nid oes neb yn cael eu derbyn yn syth o'r llysoedd. Caiff carcharorion newydd eu derbyn ar amrywiol adegau o'r dydd a gweinyddir y gwaith gan staff pwrpasol.

Mae ymsefydlu'n tueddu i fod ynghylch y cyfundrefnau yn y naill garchar neu'r llall, yn hytrach na mynd i mewn i'r system garchardai am y tro cyntaf. Ym Mhrescoed, mae ymsefydlu'n digwydd dros yr wythnos gyntaf o gyrraedd yno a chaiff ei gyflwyno'n bennaf gan garcharorion eraill a ddetholwyd, gyda swyddog yn goruchwyllo. Mae aelodau o'r Bwrdd yn aml yn gweld y sesiynau hyn a dywedant eu bod yn cael eu cyflawni gyda sylw dyledus i reolau carchar a pharodrwydd gan garcharorion i roi adroddiad teg a chywir o'r wybodaeth ofynnol.

RHAGLENNI

Brynbuga

- SOTP (Rhaglen Driniaeth i Droseddwyr Rhyw) Craidd ac wedi'i Haddasu
- Perthnasoedd Iach
- Triniaeth Rywiol Iach
- Rhaglen Gyffuriau
- A-Z Carcharorion sy'n Gwadu

Prescoed.

- * Mynediad at braw
- * TSP Sgiliau Meddwl
- * CALM Rheoli Dicter
- * iDAP Trais Domestig

AMSER ALLAN O'R GELL

BRYNBUGA

07.45 - 12.15

13.30 - 17.30

18.00 - 19.30

PRESCOED

Symudiad rhydd o wirio'r gofrestr am 06.00 o'r gloch

Dychwelyd i'w Uned eu hunain erbyn 22.00 o'r gloch

PRESCOED

Symudiad rhydd o wirio'r gofrestr am 06.00 o'r gloch

Dychwelyd i'w Uned eu hunain erbyn 22.00 o'r gloch

ENGHREIFFTIAU O RAGORIAETH

- 1 Cyd-drafod gyda gweithwyr newydd. Mae rheolwyr a staff Prescoed bob amser yn chwilio am gyflogwyr newydd a all gynnig cyfleoedd gwaith i garcharorion. Lle bynnag y bo hynny'n bosibl, ceisir cyflogaeth a fydd yn cynorthwyo'r gwaith o adsefydlu carcharorion yn y pen draw trwy ddatblygu sgil sydd ganddynt eisoes neu mewn lleoliad sy'n addas. Ee cyfleoedd gwledig, trefol, diwydiannol neu fasnachol. Mae'r amrywiaeth o gysylltiadau / cyfleoedd gwaith yn rhywbeth sy'n dal i greu argraff.
- 2 Dyddiau Teuluol Carcharorion Oes. Mae hyn yn cynnig cyfleoedd i deuluoedd ymweld â'r carchar a chymryd rhan mewn ymweliad mwy ystyrlon gyda'r carcharor a'r staff. Caiff aelod o'r teulu ei annog i ddeall cyfundrefn y carchar a'r ymdrechion a wneir i sicrhau bod y ddedfryd yn cael ei chyflawni yn y modd mwyaf cynhyrchiol. Lle bynnag bo hynny'n bosibl, anogir y ddwy ochr i fynd i'r afael â rhai o agweddau seicolegol dedfryd hir.
- 3 Grŵp Pobl Hŷn. Mae'r "Young at Heart Group" yn dal i ffynnu ac mae'n ffynhonnell boblogaidd o gefnogaeth i garcharorion hŷn ym Mrynbuga. Mae'r Grŵp yn cael ei arwain gan garcharorion yn bennaf ac mae'n ymdrin â llawer o bynciau sy'n ddefnyddiol a chefnogol.
- 4 Grŵp Carcharorion Hoyw. Mae'r Grŵp hwn yn cynnig cyfleoedd i garcharorion drafod llawer o faterion mewn amgylchedd diogel.
- 5 Mae cynnal safonau yn ystod adegau anodd yn glod i staff a charcharorion ar y ddwy ochr.
- 6 Mae'r cydgysylltu a'r rhannu gwybodaeth gyda'r heddlu yn rhagorol, ac mae'n gymorth mawr wrth fynd i'r afael â materion o fewn y carchardai, yn enwedig wrth fonitro cysylltiad carcharorion â phobl y tu allan a gwybodaeth gyfoes ar dueddiadau'n ymwneud â chyffuriau.

MEYSYDD O BRYDER

- 1 Mae cyfleusterau ymwelwyr ym Mrynbuga'n gyfyngedig o ran gofod a chânt eu gwasanaethu gan beiriannau bwyd a diod yn hytrach na bod lluniaeth yn cael ei weini gan y WRVS fel roedd yn digwydd o'r blaen.
- 2 Mae carcharorion ym Mrynbuga'n dal i orfod bwyta'u prydau bwyd yn eu celloedd. Mae oedran a chynllun y carchar yn gwneud hyn yn ddealladwy ond mae'n dal yn anfoddhaol mewn oes fodern.

Adran 7

YSTADEGAU'R BWRDD	
Nifer a argymhellir o aelodau ar gyfer y Bwrdd	15
Nifer o aelodau'r Bwrdd ar gychwyn y cyfnod adrodd	11
Nifer o aelodau'r Bwrdd ar ddiwedd y cyfnod adrodd	15
Nifer o aelodau newydd i ymuno o fewn y cyfnod adrodd	5
Nifer o aelodau'n gadael o fewn y cyfnod adrodd	1
Nifer o Aelodau'r Bwrdd yn ystod y cyfnod adrodd	12
Cyfanswm nifer o ymweliadau â'r Sefydliad	312
Cyfanswm nifer o Adolygiadau Gwahanu	N/A
Cyfanswm nifer o Adolygiadau Gwahanu a fynychwyd	N/A
Dyddiad Adolygiad Blynnyddol Perfformiad Tîm	29.11.11

Ceisiadau i'r Bwrdd Monitro Annibynnol yn ystod y cyfnod adrodd

COD	PWNC	BLWYDDYN
A	Llety	2
B	Dyfarniadau	0
C	Cydraddoldeb ac Amrywiaeth (gan gynnwys crefydd)	0
D	Addysg / cyflogaeth / hyfforddiant	0
E1	Teulu / Ymweliadau gan gynnwys post a ffôn	3
E2	Cyllid / Tâl	4
F	Ymwneud â Bwyd / y Gegig	1
G	Ymwneud ag Iechyd	6
H1	Eiddo o fewn y sefydliad cyfredol	0
H2	Eiddo wrth drosglwyddo i sefydliad arall	7
H3	Ffreutur, cyfleusterau, siopa catalog, Argos	0
I	Ymwneud â dedfrydau. (Rhyddhau ar drwydded dros dro, parôl, dyddiadau rhyddhau, newid categori etc)	3
J	Pryderon Staff / Carcharorion gan gynnwys bwlio	0
K	Trosglwyddiadau	2
L	Manion	9
	Cyfanswm nifer o Geisiadau i'r Bwrdd Monitro Lleol	37
	O'r cyfanswm – y nifer o Fynediadau Cyfrinachol oedd	0